Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

Mehefin 18fed, 2021

Cymwysterau Haf 2021 – Y Graddau a Bennir gan Ganolfannau (GBG)

Annwyl riant / warcheidwad

Rwy'n ysgrifennu atoch am y modd y byddwn yn cyhoeddi yr wythnos nesaf y graddau dros dro a bennir i'ch plentyn ar gyfer y cymwysterau a achredir gan Gymwysterau Cymru, ac am y broses apêl. Bydd canlyniadau cymwysterau a arholir gan fyrddau arholi Lloegr yn cael eu cyhoeddi ym mis Awst yn unig. Y rhain fydd pob cymhwyster BTEC, TGAU cymdeithaseg, lefel mynediad Cymraeg ac arlwyo.

Hoffwn longyfarch pob disgybl ymlaenllaw ar gyrraedd pen y daith yn llwyddiannus ac am eu holl ymdrechion wrth baratoi ar gyfer yr asesiadau terfynol dan amodau eithriadol a digynsail. Mae hi wedi bod yn broses heriol i staff a dysgwyr a rwy'n falch iawn o'r modd y cyflawnwyd yr asesiadau mewn modd mor ddi-ffwdan sy'n deyrnged i'r athrawon ac i'r myfyrwyr. Rwy'n mawr obeithio y bydd pawb yn teimlo eu bod wedi gwneud eu gorau a phob dymuniad da i bob un dysgwr ar gyfer y cam nesaf cyffrous yn eu bywydau.

Mae'r holl wybodaeth angenrheidiol am y broses o bennu graddau, adolygiadau gan ganolfannau ac apeliadau ar gael ar wefannau bwrdd arholi CBAC a Chymwysterau Cymru. Gofynnaf yn garedig i chi ddarllen y ddogfen **yma** gan Gymwysterau Cymru, sydd yn esbonio'r broses adolygu, cyn mynd ati i wneud cais i weld y cofnod gwneud penderfyniad neu cyn gwneud cais am adolygiad gradd. Fe wnaf i anfon y ddogfen ar ffurf dogfen PDF rhag ofn na fydd y cyswllt yn agor i chi.

Cofnod gwneud penderfyniad: Mae'r cofnod gwneud penderfyniad yn gofnod o'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gan adran benodol er mwyn pennu gradd derfynol pob disgybl. Dyma'r cam cyntaf yn y broses apelio, a bydd angen gwneud cais o fewn 48 awr o dderbyn y canlyniadau os am weld y cofnod gwneud penderfyniad. Gallwch wneud cais drwy gysylltu ag Arholiadau@ysgolplasmawr.cymru

Adolygiad o'r radd: Os yw disgybl am i'r ysgol adolygu gradd benodol, mae angen cwblhau'r ffurflen **yma** a'i dychwelyd at Arholiadau@ysgolplasmawr.cymru cyn y dyddiad cau, sef dydd Gwener, Gorffennaf 2ail. Fe wnaf i anfon y ffurflen atoch fel atodiad ar wahân rhag ofn nad yw'r cyswllt yn agor i chi.

Mae'r tabl isod yn nodi dyddiadau pwysig sy'n ymwneud â chyhoeddi'r graddau a'r broses apêl.

Digwyddiad	**Dyddiad**
Cyhoeddi canlyniadau dros dro i ddysgwyr 11, 12 a 13 trwy ap Edulink 1.	Mehefin 23 (yn ystod y bore)
Cyfnod gwneud cais i weld y cofnod gwneud penderfyniadau.	Mehefin 24 a 25
Cyfnod gwneud cais am adolygiad o'r radd.	Mehefin 27 – Gorffennaf 2
Canlyniadau terfynol UG ac Uwch trwy ap Edulink 1.	Awst 10
Canlyniadau terfynol TGAU trwy ap Edulink 1.	Awst 12

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

Bydd canlyniadau eich plentyn yn cael eu cyhoeddi ar ap Edulink yn ystod bore dydd Mercher, Mehefin 23ain. Ni fydd angen i'ch plentyn ddod i'r ysgol i dderbyn y canlyniadau. Os bydd eich plentyn am wirio unrhyw ganlyniad mewn unrhyw bwnc, fe fydd angen dilyn y camau isod ar gyfer adolygu'r radd honno.

Adolygiadau gan ganolfannau ac apeliadau 2021:

Cam 1: Adolygiad gan ganolfan o'r radd dros dro: Mae'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer y broses adolygu graddau a'r broses apêl ar gael yn y ddogfen a gyhoeddwyd gan Gymwysterau Cymru a anfonwyd atoch fel dogfen ar wahân. Mae'n hanfodol bwysig bod eich plentyn yn glynu wrth y dyddiadau sydd yn y tabl uchod os am adolygu gradd. Dilynwch y cyswllt a nodwyd uchod i gyrraedd y ffurflen gwneud cais i adolygu gradd. Mae'n rhaid i bob disgybl gwblhau'r ffurflen hon er mwyn gwneud cais am adolygiad o'r radd dros dro a'i anfon at Arholiadau@ysgolplasmawr.cymru o fewn y terfyn amser a nodwyd yn y tabl.

Cam 2: Apelio i CBAC: Os ydych yn dal i gredu bod camgymeriad yn eich gradd ar ôl cwblhau'r adolygiad gan ganolfan, gallwch ystyried a ddylid cyflwyno apêl i CBAC. Dim ond ar ôl diwrnod y canlyniadau terfynol (mis Awst) y gellir cyflwyno apêl i CBAC.

Cam 3: EPRS: Cynhelir yr EPRS (Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi) gan Gymwysterau Cymru. Dyma'r cam olaf yn y broses apelio. Yng Ngham 3 yr EPRS, bydd Cymwysterau Cymru yn gwirio a yw CBAC wedi cydymffurfio â'u gweithdrefnau eu hun a'r gofynion rheoliadol.

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei drin yn deg yn ystod y broses pennu graddau eleni, dan amodau eithriadol, ac yn derbyn y graddau y mae'n eu haeddu. Fe lynwyd at y broses pennu graddau a gynlluniwyd gan Gymwysterau Cymru a chafodd polisi'r ysgol ei gymeradwyo gan fwrdd arholi CBAC.

Yn gywir

John Hayes
Pennaeth

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

June 18th, 2021

Summer 2021 Qualifications – Centre Determined Grades (CDG)

Dear parent / guardian

I am writing to you with information about the publication next week of the provisional centre determined grades (CDG) for all our GCSE, AS, and A-level qualifications accredited by Qualifications Wales, and about the appeals process. Results for qualifications examined by English examining boards will only be published in August. These include all BTEC qualifications, sociology (GCSE), entry level Welsh and catering.

I would like to warmly congratulate every student prior to the release of their results for the fortitude, dedication and resilience shown in completing their formal assessments under extremely difficult and unprecedented conditions. It has been a challenging task for students and staff and I am proud of the 'matter of fact' way the assessments were administered by our teachers and sat by our students with little fuss. I sincerely hope that every student will feel that they have done their best in their assessments and I wish every student well as they progress to the next exciting period in their lives.

All the relevant information regarding this summer's qualifications, including information about the review of results and appeals process, are available on the Qualifications Wales and WJEC websites. I would kindly ask you to read this important **document** before your child decides to request a copy of the decision-making record or to request a review of a particular grade. I will send you a copy of the Qualifications Wales document as an attachment in case the link does not open for you.

Decision-making record: This is a record of the evidence used by a department to determine the grade for every pupil. This is the first step in the review process and a request for the decision-making record needs to be made within 48 hours of the results being released through contacting the school using this e-mail address: Arholiadau@ysgolplasmawr.cymru

Grade review: If a pupil decides to review a grade, they must complete this **form** and return it to Arholiadau@ysgolplasmawr.cymru before the deadline on Friday, July 2nd. I will also send the form to you as a separate document in case you cannot access the link.

You will find key dates below regarding the release of the provisional results and the appeals process.

Event	Date
Provisional results released to pupils in Years 11, 12 and 13 via the Edulink 1 app.	June 23 (during the morning)
Requests for a decision-making record for a particular grade.	June 24-30
Requests for a review of the provisional centre determined grade.	June 27-July 2
Final AS and A-level results via the Edulink 1 app.	August 10
Final GCSE results via the Edulink 1 app.	August 12

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

Your child's results will be published during Wednesday morning on the Edulink app. Your child will not need to attend school to receive the results. If for any reason your child wants to check any result in particular, they would need to follow the advice below to review or appeal the result.

Centre reviews and appeals 2021:

Stage 1: Centre review of the provisional grade: All the necessary information regarding the centre review and appeals process can be seen in the document published by Qualifications Wales. Please read the document carefully before your child requests a decision-making document or requests a centre review. It is very important that your child adheres to the dates in the table above in order to review a grade. Please ask your child to complete the form attached to request a centre review of the provisional centre determined grade on the grounds that there has been an error in the determination of their grade. Learners must give a reason why they believe there has been an error in the determination of their grade. The request for a review form should be sent to: Arholiadau@ysgolplasmawr.cymru

Stage 2: Appeal to WJEC: If you still believe there is an error in your grade after the centre review has been completed, you can consider whether to submit an appeal to WJEC. The appeal can only be submitted to WJEC by the school after results day (August).

Stage 3: EPRS: The EPRS (Exam Procedures Review Service) is run by Qualifications Wales. It is the final stage in the appeals process. At Stage 3, the EPRS will check whether WJEC has complied with its own procedures and the regulatory requirements.

Every effort has been made throughout the centre determined grades process this year to ensure that every pupil has been treated fairly and will receive the grades that they merit. The staff involved in the grade determining process strictly adhered to the guidance provided by Qualifications Wales and the school's summer 2021 assessment policy, which was approved by the WJEC examining board.

Yours sincerely

John Hayes
Headteacher